

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu'r gofynion wrth hybu llesiant ysbrydol unigolion. Mae'n cynnwys adnabod, parchu a hybu ymdeimlad yr unigolyn o bwrpas ac ystyr, gan gynnwys ei foesau a'i werthoedd. Gall hyn gynnwys ffydd grefyddol, credoau a gwerthoedd personol, cysylltiad â natur neu gymryd rhan mewn arferion hunanofal sy'n hybu llesiant ysbrydol.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am lesiant ysbrydol unigolion
2. hybu amgylchedd cynhwysol sy'n galluogi unigolion i fynegi eu dewisiadau a'u hanghenion ysbrydol
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ystyried beth mae llesiant ysbrydol yn ei olygu iddynt a'r effaith mae'n ei gael ar eu bywyd
4. cefnogi unigolion i nodi sut y gellir cwrdd â'u hanghenion ysbrydol yn ogystal â'r moesau a'r gwerthoedd sy'n bwysig iddynt
5. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ddatblygu cynlluniau gofal neu gymorth sy'n cydnabod ac yn cwrdd â chredoau, arferion, moesau a gwerthoedd ysbrydol yr unigolyn
6. defnyddio cynlluniau gofal neu gymorth i hybu credoau ac arferion ysbrydol unigolion i bobl eraill
7. grymuso unigolion i gysylltu, cael mynediad ac adeiladu ar gysylltiadau ag amgylcheddau, cymunedau a gwasanaethau ar gyfer eu harferion ysbrydol
8. hybu a chefnogi ymgysylltiad ac annibyniaeth unigolion â'u harferion ysbrydol
9. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar sut y llwyddir i gwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion ysbrydol
10. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gytuno ar unrhyw newidiadau a diweddarau cynlluniau gofal neu gymorth sy'n hybu eu llesiant ysbrydol
11. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer llesiant ysbrydol unigolion
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu llesiant ysbrydol unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. yr hyn a olygir wrth y term llesiant ysbrydol a'r hyn y gellir ei gynnwys ynddo
2. yr amrywiaeth o gredoau ac arferion a all gyfrannu at lesiant ysbrydol
3. sut y gall diwylliant a chefnidir ddylanwadu ar arferion ysbrydol unigolion
4. y mathau o amgylcheddau, cymdeithasau a gwasanaethau a all gefnogi llesiant ysbrydol, a'u pwysigrwydd
5. sut mae cael mynediad at amgylcheddau, cymunedau a gwasanaethau ar gyfer llesiant ysbrydol unigolion, a meithrin cysylltiadau â nhw
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu llesiant ysbrydol unigolion
7. sut mae cael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion ysbrydol unigolion
8. sut mae hybu llesiant ysbrydol mewn cynlluniau gofal neu gymorth
9. rôl gyffredinol llesiant ysbrydol ar fywyd unigolion
10. dulliau hybu amgylchedd cynhwysol a pharchus i gefnogi dewisiadau ac anghenion ysbrydol
11. amgylchiadau, amodau neu newidiadau a allai effeithio ar lesiant ysbrydol
12. ffyrdd o gefnogi unigolion pan fyddant yn, neu wedi gwynebu heriau gyda'u llesiant ysbrydol
13. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth hybu llesiant ysbrydol
14. pwysigrwydd cefnogi unigolion i roi gwybod beth yw eu safbwynt unigryw a phrofiad o ran llesiant ysbrydol
15. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddewisiadau ac anghenion ysbrydol
16. rôl perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol o ran hybu llesiant ysbrydol unigolion
17. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu llesiant ysbrydol unigolion
18. sut y gellir defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi arferion ysbrydol
19. sut mae adolygu cynlluniau gofal neu gymorth i gwrdd â dewisiadau ac anghenion ysbrydol yr unigolyn
20. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu llesiant ysbrydol unigolion
21. damcaniaethau sy'n berthnasol i lesiant ysbrydol unigolion

22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu llesiant ysbrydol unigolion
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu llesiant ysbrydol unigolion
24. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu llesiant ysbrydol unigolion
25. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu llesiant ysbrydol unigolion, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu llesiant ysbrydol unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

<b>Datblygwyd gan</b>	Skills for Care & Development
<b>Fersiwn rhif</b>	1
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	31 Ion 2026
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	31 Ion 2031
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Skills for Care and Development
<b>RCU gwreiddiol</b>	HSCCLD312
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
<b>Cyfes/Set</b>	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu
<b>Geiriau Allweddol</b>	Ilesiant cymdeithasol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu